# Prifysgol Abertawe

# Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN05 Storio a Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |

| **Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN0505<br>Storio a Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol** | |
|---|---|
| Man creu | Pob man |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 20-01-01 |
| Math | Gwastraff a reolir |
| Dull gwaredu | Gwahanu er mwyn ei ddarnio/ailgylchu |
| Math o fin/bag | bag hunan-lynu / bin consol dan glo 15 cilogram yn unig |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal gyfreithiol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2015, y Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012, ymysg eraill, i sicrhau y caiff yr holl wastraff cyfrinachol ei waredu'n gywir ac y caiff yr holl gofnodion eu storio yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i bob math o wastraff cyfrinachol a grëir gan bob Cyfadran a phob adran academaidd a gweinyddol Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i gofnodion cyfrinachol sydd wedi'u cadw ar yriannau caled cyfrifiaduron, y dylid eu gwaredu fel gwastraff  cyfarpar trydanol ac electronig.

Mae gan y Brifysgol wasanaeth mewnol i gasglu sbwriel cyfrinachol, a chaiff yr holl wastraff cyfrinachol ei gasglu a'i storio'n ddiogel ar y safle, cyn iddo gael ei gasglu gan gwmni rheoli gwastraff dan gontract. Caiff yr holl wastraff cyfrinachol ei ddarnio, darperir ardystiad ei fod wedi'i ddinistrio'n ddiogel, a chaiff ei anfon i'w ailgylchu.

O fis Gorffennaf 2021, bydd y Brifysgol yn rhoi'r gorau'n raddol i ddarparu bagiau plastig glas ar gyfer gwastraff cyfrinachol, a bydd yn darparu bagiau cyfrinachol 15 cilogram gwyn sy'n hunan-lynu. Amcangyfrifir, drwy newid o fagiau plastig i fagiau papur, bydd y Brifysgol yn osgoi cynhyrchu 78kg o wastraff plastig bob blwyddyn ac yn arbed cynhyrchu 469.47 kgCo2 yn y broses. At hyn, caiff yr holl bapur gwastraff a gesglir ei ailgylchu i'w droi'n dyweli papur llaw.

## Storio'n Fewnol Cyn Gwaredu

Rhaid gosod gwastraff cyfrinachol, ac eithrio gwastraff cyfrinachol wedi'i groes-ddarnio, mewn bagiau gwastraff cyfrinachol, neu gellir darparu biniau consol diogel.





Ffigur 1; Bag hunan-lynu gwyn 15 cilogram ar gyfer papur gwastraff cyfrinachol
Ffigur 2; Consol gwastraff cyfrinachol dan glo

Peidiwch â gorlenwi bagiau; ni ddylai bagiau bwyso mwy na 15 cilogram (sef pwysau blwch safonol o A4). Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r sticer hunan-lynu er mwyn diogelu'r bag. Rhaid cadw'r bag yn ddiogel bob amser, felly rhaid peidio â gadael bagiau mewn coridorau neu y tu allan i ystafelloedd heb eu gwylio.
**Ni ellir gosod gwastraff cyfrinachol mewn biniau olwyn allanol.**

Fodd bynnag, gellir gosod gwastraff cyfrinachol sydd wedi'i groes-ddarnio mewn bagiau clir, a gall staff glanhau gael gwared â nhw mewn biniau ailgylchu allanol.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Cyflenwi bagiau a biniau consol dan glo

- Er mwyn archebu bagiau gwastraff cyfrinachol, neu gonsol y gellir ei gloi ar gyfer eich gwastraff cyfrinachol, rhaid cyflwyno archeb gwaith drwy System Desg Gymorth ar-lein y Brifysgol.

### Casglu bagiau a chonsolau

- Er mwyn trefnu i gasglu bagiau, neu gyfnewid consol y gellir ei gloi, rhaid cyflwyno archeb gwaith drwy System Desg Gymorth ar-lein y Brifysgol.

- Sylwer y caiff bagiau eu casglu ymhen 5 niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r archeb gwaith, efallai'n hwy i gonsolau.

## Cost Gwaredu

Mae cyllideb ganolog ar gyfer gwastraff yn talu cost gwaredu gwastraff cyfrinachol safonol.

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch Estates-Waste@abertawe.ac.uk**

## Beth yw gwastraff, a pha gofnodion y mae angen eu cadw?

### Diffiniad

Mae cofnod yn golygu unrhyw wybodaeth a gipiwyd mewn fformat y gellir ei ailgynhyrchu; mae hyn yn cynnwys papur, llyfr, llun, microffilm, map, lluniad, arteffact, siart, tâp magnetig, disg neu ddisg optegol, neu unrhyw fath o gyfrwng storio electronig sy'n darparu tystiolaeth o swyddogaethau, gweithgareddau a thrafodion y Brifysgol.

### (a) Cofnodion cyfrinachol - cyffredinol

Dim ond cyfran fach o'r cofnodion sydd wedi'u creu a'u cadw yn y Brifysgol fydd yn gyfrinachol eu natur; bydd y rhan fwyaf ohonynt yn ymdrin â materion ariannol neu bersonol (e.e. manylu ar wybodaeth staff neu fyfyrwyr). Mae'n bwysig cofio y dylid ymdrin yn gyfrinachol ag unrhyw gofnod wedi'i greu gan y Brifysgol nad yw eisoes yn gyhoeddus ac sy'n cynnwys gwybodaeth am unigolion y gellir eu nodi. Bydd hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â thelerau Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2015.

Hefyd, dylid ymdrin yn gyfrinachol ag unrhyw gofnod wedi'i greu gan staff yn y Brifysgol nad yw eisoes yn gyhoeddus ac sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

Nid yw fformat cofnod yn pennu a yw'n gyfrinachol neu beidio. Mae negeseuon e-bost yr un mor debygol o gynnwys gwybodaeth gyfrinachol ag y mae llythyron ffurfiol.

### (b) Beth nad yw'n gyfrinachol?

Yn gyffredinol, unrhyw gofnod neu gopi o gofnod sydd eisoes yn gyhoeddus, e.e. wedi'i osod yn y llyfrgell. Mae hyn yn cynnwys:

- Papurau arholiad gwag (ar ôl yr arholiad)
- Siarteri [o ddiddordeb archifol]
- Canllawiau a brasluniau cyrsiau [o ddiddordeb archifol]
- Data sydd wedi'u troi'n gwbl ddienw
- Gwefannau
- Rheoliadau
- Rhestrau cysylltu cyhoeddedig
- Cylchgronau
- Datganiadau cenhadaeth [o ddiddordeb archifol]
- Papurau Newydd
- Datganiadau i'r wasg [o ddiddordeb archifol]
- Deunyddiau cyflwyniadau
- Prosbectysau
- Cyhoeddusrwydd
- Cylchlythyron cyhoeddedig
- Cofnodion cyhoeddedig
- Adroddiadau cyhoeddedig
- Arolygon cyhoeddedig

- Statudau
- Traethodau ymchwil [a dderbyniwyd]
- Amserlenni

**(c) Beth sy'n gyfrinachol?**

(i) Unrhyw gofnod sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am unigolion byw; er enghraifft;

- Llyfrau a chofnodion ynghylch damweiniau
- Cofnodion derbyn myfyrwyr
- Data o holiaduron neu ddata eraill pan fo cyd-ddealltwriaeth y bydd cyfrinachedd.
- Gohebiaeth neu ddogfennau eraill sy'n datgelu manylion cyswllt neu fanylion ariannol unigolyn byw sydd wedi'i enwi.
- Gohebiaeth neu ddogfennau eraill sy'n datgelu manylion personol unigolyn byw sydd wedi'i enwi neu'n gwneud sylwadau amdano.
- Ceisiadau am grantiau
- Ffurflenni treth incwm ac Yswiriant Gwladol
- Cofnodion iechyd
- Nodiadau o gyfweliadau
- Ceisiadau am Swyddi
- Cofnodion tâl mamolaeth
- Cofnodion meddygol
- Cofnodion diswyddo
- Cofnodion tâl salwch
- Cofnodion personél staff
- Cofnodion disgyblu neu apelio staff neu fyfyrwyr
- Cofnodion myfyrwyr
- Cofnodion cyflogau

(ii) Unrhyw gofnod y gallai dorri cyfrinachedd masnachol pe tasai'n mynd yn gyhoeddus Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Unrhyw gofnod a allai dorri hawliau eiddo deallusol, e.e. deunydd ymchwil heb ei gyhoeddi, drafftiau a llawysgrifau.
- Contractau
- Cofnodion yswiriant
- Cofnodion cynnal a chadw
- Cofnodion prynu
- Tendrau
- Cofnodion cyfrifyddu heb eu cyhoeddi

**Beth sy'n gallu mynd mewn consol gwastraff cyfrinachol**

